

Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG)

4 Medi 2019



Yn Bresennol

Eluned Jones (Llywodraeth Cymru), **Phil Coates** (Llywodraeth Cymru), **Rebecca Rees** (Llywodraeth Cymru), **Rafe Osborne** (Llywodraeth Cymru), **Adrian Judd** (Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu), **Rachel Mulholland** (Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu), **Mark Russell** (Y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau), **Mike Wilkinson** (Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar), **Kirsty Lindenbaum** (Cyfoeth Naturiol Cymru), **Lucie Skates** (Cyfoeth Naturiol Cymru), **Harriet Robinson** (Cyfoeth Naturiol Cymru), **Lisa Phillips** (Cyfoeth Naturiol Cymru), **Karen Perrow** (Cyfoeth Naturiol Cymru), **Amy Martin** (Cyfoeth Naturiol Cymru), **Duncan Savage** (Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol), **Mike Butterfield** (Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol), **Mel Nicholls** (Y Sefydliad Rheoli Morol), **Jillian Whyte** (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur), **Stephen Jay** (Prifysgol Lerpwl), **Alice Collier** (Ystad y Goron), **Eunice Pinn** (Seafish), **Colin Trigg** (ABPMer), **Natalie Frost** (ABPMer)

1. Yn dilyn cymeradwyaeth yr arweinydd polisi, mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a gafodd ei ailddrafftio bellach wedi'i atgyfeirio i'w adolygu ar lefel Weinidogol. Gan fod y cynllun yn cwmpasu nifer o swyddogaethau a ddargedwir, mae hyn yn cynnwys atgyfeirio at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU. Tra bo'r broses hon yn mynd rhagddi, mae'r tîm yn gweithio ar gyfres o ddogfennau a fydd yn cyd-fynd â'r cynllun, gan gynnwys Canllawiau ar Gyflawni, Fframwaith Monitro ac Adrodd, Porth Cynllunio Morol ac Adroddiad Tystiolaeth Forol Cymru wedi'i ddiweddarau.
2. Prif ddiben y cyfarfod hwn oedd trafod y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd o ran datblygu dull gofodol i gynllunio morol ac i Cyfoeth Naturiol Cymru drafod y Datganiad Ardal Forol y mae wrthi'n ei baratoi.
3. Yn dilyn cyflwyno Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhoddwyd y dasg i Cyfoeth Naturiol Cymru o lunio Datganiadau Ardal, gan gynnwys un sy'n canolbwyntio ar yr Ardal Forol. Pan fyddant yn cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2020, bydd Datganiadau Ardal yn esbonio pam fod datganiad wedi'i baratoi ar gyfer yr ardal, gan gyfeirio at y canlynol:
 - yr adnoddau naturiol yn yr ardal honno,
 - y manteision sy'n deillio o'r adnoddau naturiol hyn,
 - y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd y mae angen mynd i'r afael â nhw,
 - yr hyn y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ei wneud i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Polisi Adnoddau Naturiol.
4. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi tair thema ar gyfer y Datganiad Ardal Forol, yn seiliedig ar drafodaeth â Grŵp Cynghori a Gweithredu Ardal Forol Cymru (WMAAG), a gofynnwyd i'r cyfarfod archwilio'r thema: Cefnogi'r gwaith o weithredu cynllunio morol.

5. Roedd ail hanner y cyfarfod yn canolbwyntio ar waith i ddatblygu dull gofodol i gynllunio morol. Er mwyn bwrw ati gyda chynllunio morol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phaneli Arbenigwyr, sy'n cynnwys aelodau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol hwn ac arweinwyr sector polisi Llywodraeth Cymru, er mwyn archwilio a diffinio cyfleoedd a chyfyngiadau ymhellach ar gyfer y sectorau Agregau, Dyframaethu ac Ynni Ffrwd Lanw ac Ynni Tonnau. Bydd hyn yn llywio'r gwaith o ystyried a fydd achos posibl dros fwrw ati i ddatblygu cynigion ar gyfer Ardaloedd Adnoddau Strategol (SRAs) i gyflwyno rhywfaint o ddiogelu sy'n gysylltiedig â defnyddio adnoddau cynaliadwy posibl yn y dyfodol.
6. Gwnaeth y Paneli Arbenigwyr gyfarfod yn rhithwir am y tro cyntaf yn ystod mis Awst a byddant yn cyfarfod eto drwy gydol tymor yr Hydref. Mae argaeledd y dystiolaeth sy'n sail i'r gwaith hwn a llywio'r gwaith o ddatblygu unrhyw Ardaloedd Adnoddau Strategol posibl yn ystyriaeth bwysig. Fel rhan o'r gwaith hwn, ystyrir hefyd a ddylid mynd i'r afael â bylchau yn y dystiolaeth. Nid oes unrhyw ragdybiaeth y bydd unrhyw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn mynd rhagddynt ar gyfer unrhyw sector penodol a bydd achosion dros fwrw ati neu beidio yn cael eu llunio a'u rhannu â'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gydweithio ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i fwrw ati gyda'r gwaith hwn, gan y bydd deall anghenion rhanddeiliaid yn galluogi teilwra allbynnau yn y ffordd fwyaf priodol a pherthnasol.
7. Gwnaeth y grŵp hefyd dderbyn diweddariad gan ABPMer ar y prosiect Rheoli Adnoddau Naturiol mewn Modd Cynaliadwy. Mae Cam Un y prosiect wedi'i gwblhau ac mae'r allbynnau bellach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae Cam Dau yn dechrau nawr ac mae'n ystyried yr argymhellion a wnaed yn ystod Cam Un, gan gynnwys mynd i'r afael â bylchau o ran gwybodaeth.

Ymholiadau at: Rebecca.Rees2@llyw.cymru